Fflworid / fflworeiddiad

Fflworeiddiad yw'r arfer o ychwanegu cyfansoddion fflworid at ddŵr yfed cyhoeddus gyda'r nod o ostwng pydredd dannedd ymysg y boblogaeth yn gyffredinol.

Bydd dŵr yfed heb ei drin yn cynnwys fflworid fel rhan o'r mwynau naturiol ac ni fydd y prosesau trin dŵr yn ei waredu. Fodd bynnag, mae'r fflworid naturiol o fewn ardal gyflenwi Dŵr Cymru yn llawer is na'r hyn a ychwanegir at ddibenion iechyd deintyddol. Fel arfer, mae lefelau naturiol yn llai na 50 microgram / litr.

Pwy sy'n penderfynu rhoi fflworid yn y dŵr yfed?

Yn y gorffennol, gallai awdurdodau lleol ofyn cwmnïau dŵr i fflworideiddio dŵr yfed, ond gallai cwmnïau wrthod gwneud hynny. Addaswyd Deddf Diwydiant Dwr 1991 gan Adran 58, Deddf Dŵr 2003, i orfodi cwmnïau dŵr i fflworideiddio dŵr yfed o dderbyn cais i wneud hynny gan yr awdurdod iechyd strategol neu Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn dilyn ymgynghoriad lleol.

Ar hyn o bryd ni ychwanegir fflworid i'r dŵr yfed yn unrhyw un o weithfeydd trin dŵr Dŵr Cymru ac nid yw'r ddeddfwriaeth mewn grym yng Nghymru hyd yma. Mater i'r awdurdodau iechyd a'r Llywodraeth yw penderfynu os am ychwanegu fflworid at ddŵr yfed ai peidio, neu unrhyw fesur arall er lles iechyd. Os cyflwynir deddfwriaeth yn mynnu ychwanegu fflworid at ddŵr yfed, yna bydd Dŵr Cymru yn naturiol yn diwallu ei rwymedigaethau cyfreithiol.

Gwybodaeth bellach?

Galwch ni gyntaf ar ein llinell gymorth **0800 052 0130**.

Un o'n rheoleiddwyr, yr Arolygaeth Dŵr Yfed, sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd uchel cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Gwefan **www.dwi.gov.uk**